Rwy'n oedolyn ac rwy wedi cael f'arestio – beth sy'n gallu digwydd imi?

CRIMINAL JUSTICE SYSTEM

Fydda i'n cael cyngor cyfreithiol?

Mae gennych chi hawl i gael **cyngor cyfreithiol annibynnol yn rhad ac am ddim** os cewch chi'ch arestio a'ch cadw yng ngorsaf yr heddlu. Gofynnwch i swyddog y ddalfa (y swyddog sy'n gyfrifol amdanoch chi) drefnu hyn ar eich rhan. Bydd swyddog y ddalfa hefyd yn rhoi hysbysiad ichi, sy'n esbonio pa hawliau sydd gennych tra byddwch yn y ddalfa. Os oes gennych chi unrhyw amheuon am eich sefyllfa gyfreithiol, er enghraifft beth mae'r drosedd yn ei olygu ac a ydych chi'n euog neu beidio, neu beth fydd yn digwydd ichi os penderfynwch chi dderbyn un o'r opsiynau isod, **dylech chi siarad â chyfreithiwr**.

Fydda i'n mynd i'r llys?

Pan fydd yr heddlu'n credu eu bod wedi casglu digon o dystiolaeth i sicrhau euogfarn, gall Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) benderfynu mynd â'ch achos i'r llys. Os cewch eich cyhuddo, byddwch yn ymddangos gerbron y llys ynadon. Fe fyddan nhw'n gofyn ichi bledio'n euog neu'n ddieuog. Os plediwch chi'n euog, bydd y llys yn eich dedfrydu, a bydd gennych chi cofnod droseddol. Os plediwch chi'n ddieuog, gallwch ddisgwyl i'r achos fynd i dreial.

Beth yw'r dewisiadau eraill?

Mae'r heddlu'n cael delio â chi mewn ffyrdd eraill hefyd, ac mae'r ffyrdd hyn wedi'u nodi isod. Maen nhw'n dibynnu ar y math o drosedd. Yr enw ar yr opsiynau hyn, nad ydyn nhw'n golygu mynd i'r llys, yw gwarediadau tu allan i'r llys. Dydy'r heddlu ddim yn cael trafod yr opsiynau hyn gyda chi tan ar ôl iddyn nhw orffen ymchwilio i'r achos.

Rhybudd canabis

Rhybudd sy'n cael ei roi ar lafar gan swyddog heddlu yw hwn. Fe allen nhw roi rhybudd ichi ar y stryd neu yng ngorsaf yr heddlu. Gallai'r heddlu gynnig rhybudd ichi os cewch eich dal ag ychydig bach o ganabis i'w ddefnyddio eich hun. Fe gymeran nhw'r canabis oddi arnoch chi hefyd. Chaiff yr heddlu ddim rhoi rhybudd ichi oni bai eich bod yn cyfaddef mai'ch canabis chi yw e. Bydd y swyddog heddlu yn cofnodi'r ffaith eich bod wedi cyfaddef mai chi yw perchennog y canabis ac yn gofyn ichi lofnodi'r cofnod yma.

Rhybudd syml

Mae rhybudd syml yn hysbysiad ffurfiol gan swyddog heddlu eich bod wedi cyflawni trosedd. Gallai'r swyddog heddlu gynnig hyn ichi os ydych chi wedi cyflawni mân drosedd a hynny fel arfer os nad ydych chi wedi bod mewn trafferth o'r blaen. Dim ond os byddwch yn cyfaddef y drosedd ac yn cytuno i gael eich rhybuddio y caiff yr heddlu roi rhybudd syml ichi.

Rhybudd amodol

Mae hwn yn debyg i rybudd syml, ond bod rhaid ichi gadw at amodau penodol. Mae'r amodau'n dibynnu ar y drosedd neu ar eich amgylchiadau chi, ac mae'n rhaid iddyn nhw gael eu cymeradwyo gan un o Erlynwyr y Goron, sy'n annibynnol ar yr heddlu. Dyma enghreifftiau o'r math o amodau y gallai fod rhaid ichi eu cadw, pe baech chi'n cael rhybudd amodol:

- talu iawndal;
- ysgrifennu llythyr at y dioddefwr i ymddiheuro;
- glanhau graffiti oddi ar waliau; neu
- gymryd rhan mewn rhaglen adsefydlu yn dilyn cymryd cyffuriau.

Dim ond os byddwch yn cyfaddef y drosedd ac yn cytuno â'r amodau y caiff yr heddlu roi rhybudd amodol ichi. Os na fyddwch yn cytuno â'r amodau, neu os na fyddwch yn eu cadw, gallwch ddisgwyl mynd i'r llys am y drosedd wreiddiol.

Hysbysiad Cosb oherwydd Anhrefn

Ar gyfer rhai troseddau llai difrifol, gall yr heddlu roi hysbysiad cosb oherwydd anhrefn (PND) ichi. Maen nhw'n cael gwneud hyn p'un a fyddwch chi'n cyfaddef y drosedd neu beidio. Maen nhw'n cael rhoi PND ichi ar y stryd neu rywle arall, fel eich cartref neu orsaf yr heddlu.

Os cewch chi PND gan yr heddlu, mae gennych chi ddau ddewis:

- gallwch dderbyn y tocyn, a thalu dirwy benodedig o fewn 21 diwrnod; neu
- gallwch wadu'r drosedd ac, o fewn yr un cyfnod o 21 diwrnod, gofyn am wrandawiad llys.

Os na fyddwch yn gofyn am wrandawiad llys nac yn talu o fewn y cyfnod hwnnw, fe fydd rhaid ichi dalu dirwy sydd un a hanner gwaith yn fwy na'r gosb wreiddiol (er enghraifft, byddai PND am £80 yn mynd yn ddirwy o £120). Os na fyddwch chi'n talu o hyd, bydd y llys yn cymryd camau i wneud ichi dalu'r ddirwy. Fe allech chi gael eich anfon i'r carchar os na thalwch chi ddirwy'r llys.

Sut mae'r dewisiadau hyn yn effeithio ar fy nyfodol i?

Cyn ichi gytuno i unrhyw un o'r ffyrdd hyn o gael gwared ar eich achos, dylech chi sicrhau eich bod yn deall sut y gallai'ch penderfyniad effeithio ar eich dyfodol. **Nid** euogfarn yw'r gwarediadau hyn, gan nad ydych chi'n gorfod mynd i'r llys os byddwch yn eu derbyn ac yn cydymffurfio â nhw, ond fe allai **rhai neu'r cyfan** o'r canlynol fod yn berthnasol ichi o ganlyniad iddyn nhw:

- Gallai'r heddlu lleol gadw eu cofnod eu hunain o'ch gwarediad.
- Gallai'r gwarediad gael ei gofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a ffurfio rhan o'ch cofnod troseddol ffurfiol, ac fe allai gael ei ddangos i lys os byddwch chi mewn trafferth eto.
- Gallai gael ei ddefnyddio yn y llys fel tystiolaeth o'ch cymeriad drwg, fel rhan o gais am fechnïaeth neu gais am ASBO, neu mewn achos troseddol arall (fel treial).
- O dan amgylchiadau penodol, gallai'r heddlu ddweud wrth eich cyflogwyr cyfredol am y gwarediad.

- Os byddwch yn gwneud cais am swyddi penodol yn y dyfodol, er enghraifft gyda'r fyddin neu'r heddlu neu i weithio gyda phlant, efallai y bydd angen ichi ddweud wrth y bobl rydych chi'n gwneud cais iddyn nhw am y gwarediad yma. Gallai hynny eich atal rhag cael y swydd.
- O dan rai amgylchiadau, bydd rhybuddion am droseddau penodol yn golygu na chewch chi weithio mewn swyddi penodol lle gallech chi ddod i gysylltiad uniongyrchol â phlant, megis athro neu athrawes, cynorthwyydd meithrin, gweithiwr cymdeithasol plant, gyrrwr bws ysgol, a swyddi gwirfoddol fel hyfforddi tîm pêl-droed ieuenctid. Weithiau gallai hyn ddigwydd i chi hyd yn oed os nad oes cysylltiad uniongyrchol, fel bod yn ymddiriedolwr i elusen blant.
- O dan rai amgylchiadau, fe allai olygu na chewch chi deithio i rai gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, na gweithio yno.
- Os yw'r heddlu'n delio â chi oherwydd trosedd ryw, gallai olygu eich bod yn cael eich gosod ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw.

Byddwch yn wynebu'r cyfyngiadau hyn hefyd os cewch eich dyfarnu'n euog o'r drosedd yn y llys neu os byddwch yn pledio'n euog.

Pan benderfynir pa ffordd o gael gwared ar yr achos sy'n addas i chi, dylai'r heddlu esbonio effeithiau'r gwarediad hwnnw ichi cyn ichi gytuno i'w dderbyn. Os oes gennych chi unrhyw amheuaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar eich dyfodol, mae'n bwysig ichi **siarad â chyfreithiwr** cyn ichi dderbyn gwarediad.

Beth arall allai ddigwydd imi?

Fe allai'r drosedd gael ei **chymryd i ystyriaeth**. Os ydych chi wedi cyfaddef i nifer o droseddau, gallai'r heddlu benderfynu eich cyhuddo o rai ohonyn nhw yn unig, sef y rhai mwyaf difrifol fel arfer. Mae'r gweddill yn cael eu rhoi ar restr a gallwch ofyn i'r llys eu cynnwys nhw pan gewch eich dedfrydu am y troseddau rydych chi wedi'ch cyhuddo ohonyn nhw. Er bod eich dedfryd yn debyg o fod yn fyrrach na phe baech chi'n cael eich cyhuddo o bob un ohonyn nhw ar wahân, dylech chi gymryd cyngor cyfreithiol cyn cytuno i fynd ati fel hyn. Efallai y bydd yr heddlu'n penderfynu **peidio â chymryd rhagor o gamau** yn eich erbyn ar yr adeg hon, oni bai eu bod yn dod o hyd i ragor o dystiolaeth neu wybodaeth arall.

Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud, mae'n bosibl y cewch chi **fechnïaeth** i fynd yn ôl i orsaf yr heddlu yn nes ymlaen. Y rheswm am hyn fel rheol yw rhoi mwy o amser i'r heddlu orffen ymchwilio i'r drosedd heb eich cadw yn y ddalfa. Mae mechnïaeth yr heddlu yn gytundeb rhyngoch chi a'r heddlu y byddwch yn dychwelyd i orsaf yr heddlu ar ddiwrnod penodol ac amser penodol. Gall amodau gael eu rhoi ar eich mechnïaeth - fel byw mewn cyfeiriad penodol, neu beidio â chysylltu â phobl benodol. Gallwch ddefnyddio'r amser hwn i gysylltu â chyfreithiwr er mwyn cael cyngor cyn mynd yn ôl i orsaf yr heddlu.

Dydy'r daflen hon ddim yn effeithio ar eich hawl i gael cyngor cyfreithiol.

Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Swyddfa Gartref

Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol

Y System Cyfiawnder Troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

Cyhoeddwyd gan Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol. Gorffennaf 2008.
Cod y cynnyrch: AOL/08 Cyfeirnod: 286692